



COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

CANLLAWIAU

Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2)



Cynnwys

Rhan 1: Am y canllaw hwn	2
Rhan 2: Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd	5
Rhan 3: Darparu budd	7
Rhan 4: Rheoli'r risg o niwed	8
Rhan 5: Penderfynu pwy sy'n cael budd	9
Rhan 6: Rheoli buddion personol	11
Rhan 7: Peidio â chyflawni diben er budd y cyhoedd	12
Rhan 8: Gwybodaeth bellach	13
Atodiad A: Buddion a geir drwy aelodaeth	14
Atodiad B: Mynediad corfforol i gyfleusterau elusen	15
Atodiad C: Codi tâl am wasanaethau	16
Atodiad Ch: Termau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn	19

Rhan 1: Am y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn esbonio budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen.

(Gofyniad cyfreithiol): rhaid i bob elusen gael dibenion sydd er budd y cyhoedd. Wrth redeg eu helusen, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen gyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i ymddiriedolwyr elusen wrth redeg eu helusen. Bydd hefyd o ddiddordeb i chi os ydych chi'n ystyried gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau i gofrestru elusen, er mwyn i chi ddeall beth mae'n ei olygu i gyflawni dibenion eich elusen er bydd y cyhoedd.

Dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen yn gyffredinol

(Gofyniad cyfreithiol): yn ôl y gyfraith elusennau, pan fydd elusen wedi'i sefydlu, mae'n rhaid i'w ymddiriedolwyr ei gweithredu fel elusen yn unol â'r gyfraith elusennau a diben yr elusen.

I wybod rhagor am weithredu yn unol â diben elusen gweler:

- **Hyrwyddo dibenion elusennol yn unig** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Nid yw'r canllaw hwn yn ymwneud â dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen yn gyffredinol. I gael rhagor am hyn gweler:

- **Yr ymddiriedolwr hanfodol: yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3)** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus)

Mae'r canllaw hwn yn delio â dyletswydd ymddiriedolwyr i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd yn unig.

Canllawiau budd cyhoeddus eraill

Mae'r canllaw hwn yn rhan o gyfres o dri chanllaw budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau.

Mae materion yn ymwneud â dibenion eich sefydliad ac a ydynt yn elusennol a budd cyhoeddus yng nghyd-destun adroddiadau elusennau yn cael sylw mewn canllawiau budd cyhoeddus eraill.

- **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)** - Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad budd cyhoeddus. Mae'r gofyniad hwn yn effeithio ar statws sefydliad fel elusen.
- **Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)** - Mae'r canllaw hwn yn esbonio dyletswydd ymddiriedolwyr i adrodd ar sut y maen nhw wedi cyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

I gael gwybod rhagor am ein canllawiau budd cyhoeddus gweler:

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

Rhoi sylw i'n canllawiau

(Gofyniad cyfreithiol): mae'r Ddeddf Elusennau yn datgan bod rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus 'wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt'.

Mae 'rholi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus yn golygu y dylai ymddiriedolwyr elusen allu dangos eu bod:

- yn ymwybodol o'r canllawiau
- wedi rhoi sylw i'r canllawiau pan fyddant yn gwneud penderfyniad y mae'r canllawiau yn berthnasol iddo
- os ydynt wedi penderfynu gweithredu'n wahanol i'r canllawiau, bod rhesymau da ganddynt dros wneud hynny.

Cyfeiriadau at ganllawiau eraill

Mewn rhai manau yn y canllaw hwn ceir dolenni i ganllawiau perthnasol eraill a allai fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr y canllaw hwn gyfeirio atynt.

Os nad yw'r canllaw arall yn ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen 'roi sylw' iddo, nodir hynny.

Y gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

Nid yw ein canllaw budd cyhoeddus yn gyfraith ar fudd cyhoeddus. Mae'r gyfraith ar fudd cyhoeddus i'w gweld mewn deddfwriaeth elusennau a phenderfyniadau'r llysoedd.

Mae ein canllawiau budd cyhoeddus yn ganllawiau cyffredinol lefel uchel wedi'u hysgrifennu i ymddiriedolwyr elusen i esbonio beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus a sut rydym yn dehongli ac yn cymhwyso'r gyfraith honno.

Rydym yn gwneud penderfyniadau am fudd cyhoeddus mewn achosion unigol yn seiliedig ar y gyfraith fel y bo'n gymwys i ffeithiau'r achos arbennig, ac nid ar y canllaw lefel uchel hwn. Y rheswm am hynny yw oherwydd ni all ein canllaw cyffredinol gwmpasu holl gymhlethdodau'r gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth am ein barn ni ar yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud am fudd cyhoeddus gweler:

• Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus

Gall y dadansoddiad hwn o'r gyfraith fod o ddiddordeb i ymddiriedolwyr elusen a hoffai wybod mwy am sail gyfreithiol ein canllawiau. Fodd bynnag, nid yw'n ffurfio rhan o'n cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus, ac felly nid yw'n ganllaw y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi sylw iddo fel y cyfryw.

Defnyddio 'rhaid' a 'dylai'

(Gofyniad cyfreithiol): yn y canllaw hwn, pan ddefnyddiwn '**rhaid**', golygwn ei fod yn ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol sy'n effeithio ar ymddiriedolwyr neu elusen. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr gydymffurfio â'r gofynion hyn. Er mwyn eich helpu i weld y paragraffau hynny sy'n cynnwys gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol rydym wedi defnyddio'r symbol wrth ochr y paragraff hwnnw.


Defnyddiwn '**dylai**' ar gyfer eitemau sy'n cael eu hystyried yn arfer da, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol penodol ar eu cyfer. Dylai ymddiriedolwyr ddilyn y canllawiau arfer da oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

Cynigiwn gyngor llai ffurfiol hefyd ac argymhellion a allai fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr wrth iddynt reoli eu helusen.

Y fframwaith budd cyhoeddus

Mae'r siart canlynol yn dangos ble mae budd cyhoeddus yng nghyd-destun rhedeg elusen wedi'i gynnwys yn y fframwaith cyffredinol a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn elusen, gweithredu fel elusen ac adrodd ar waith eich elusen.

Fframwaith budd cyhoeddus



Rhan 2: Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd

Dyletswydd ymddiriedolwyr

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Fel arfer bydd hyn yn fater syml.

Er mwyn cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd, dylai ymddiriedolwyr elusen wybod beth yw dibenion eu helusen a deall sut y mae pob diben yn cynnig budd i'r cyhoedd.

Diben elusen a'i fudd cyhoeddus

(Gofyniad cyfreithiol): er mwyn i ddiben fod yn 'ddiben elusennol' rhaid iddo fod er 'budd y cyhoedd'.

Diben eich elusen yw'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni. Fel arfer caiff ei ddatgan yng nghymal amcanion ei dogfen lywodraethol (y ddogfen gyfreithiol sy'n creu'r elusen ac sy'n dweud sut y dylai gael ei rhedeg).

Mae budd cyhoeddus diben yn amrywio o ddiben i ddiben, ac yng nghyd-destun amgylchiadau elusen unigol.

Mae deall budd cyhoeddus pob un o ddibenion eich elusen yn golygu deall sut mae pob diben yn bodloni'r ddwy agwedd ar fudd cyhoeddus.

- yr 'agwedd budd'
- 'yr 'agwedd cyhoeddus'

Mae'r 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus yn ymwneud â'r diben ac a yw'n fuddiol.

(Gofyniad cyfreithiol): er mwyn bodloni'r 'agwedd budd' ar fudd cyhoeddus:

- rhaid i ddiben fod yn fuddiol
- ni all unrhyw golled neu niwed sy'n deillio o'r diben fod yn fwy na'r budd

Mae'r 'agwedd cyhoeddus' ar fudd cyhoeddus yn ymwneud â phwy sy'n cael budd o'r dibenion.

(Gofyniad cyfreithiol): er mwyn bodloni'r 'agwedd cyhoeddus' ar fudd cyhoeddus mae'n rhaid i'r diben:

- roi budd i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu ran ddigonol o'r cyhoedd
- nid yw'n creu mwy na budd personol damweiniol

I gael gwybod rhagor am hyn gweler ein canllaw budd cyhoeddus:

- **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)**

Rhedeg elusen

Nid yw pob penderfyniad y mae ymddiriedolwyr elusen yn ei wneud wrth redeg eu helusen yn cael effaith ar eu dyletswydd i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Beth sy'n berthnasol yw penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan yr ymddiriedolwyr sy'n cael effaith ar:

- y ffordd y mae pobl yn cael budd o ddiben yr elusen
- pwy all gael budd gan yr elusen

Mae hynny'n golygu gwneud penderfyniadau:

- sy'n sicrhau bod diben eich elusen yn darparu budd (gweler rhan 3 y canllaw hwn)
- sy'n rheoli'r risg o niwed neu golled i fuddiolwyr yr elusen neu i'r cyhoedd yn gyffredinol o gyflawni diben eich elusen (gweler rhan 4 y canllaw hwn)
- pwy sy'n cael budd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â diben eich elusen (gweler rhan 5 y canllaw hwn)
- sy'n sicrhau nad yw unrhyw fuddion personol yn ddim mwy na buddion damweiniol (gweler rhan 6 o'r canllaw hwn)

Gwneud y penderfyniad 'iawn'

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd, mae nifer o ymddiriedolwyr yn pryderu ynghylch beth yw'r penderfyniad 'iawn'. Mewn sawl sefyllfa nid oes unrhyw benderfyniad 'iawn' i'w wneud.

(Gofyniad cyfreithiol): fodd bynnag, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y penderfyniadau y byddai'n briodol i ymddiriedolwyr eu gwneud yn yr amgylchiadau arbennig hynny.

Ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniad o fewn yr ystod hon, byddan nhw wedi gwneud y penderfyniad 'iawn' bob tro.

Nid mater i'r llysoedd nac i'r Comisiwn Elusennau yw dweud wrth ymddiriedolwyr pa benderfyniad i'w wneud os oes mwy nag un penderfyniad ar gael iddynt.

Mae hyn yn golygu, fel ymddiriedolwr elusen, yn gyffredinol mae gennych chi ddewis ynghylch sut i gyflawni diben eich elusen, ar yr amod eich bod yn ymarfer eich disgresiwn mewn ffordd sydd:

- yn cydymffurfio â diben eich elusen (felly nid ydych yn gweithredu y tu allan i'r diben hwnnw)
- er budd y cyhoedd
- yn rhoi sylw i'n canllawiau budd cyhoeddus os yw'n berthnasol
- yn unol â'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau - i weld rhagor am hyn gweler **Eich penderfyniad chi: ymddiriedolwyr elusen a gwneud penderfyniadau** (Nid yw'n rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus)

Rhan 3: Darparu budd

Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd

Mae'r ffordd y mae diben elusen yn fuddiol yn rhan o'r hyn sy'n ei gwneud yn elusennol.

Wrth redeg elusen, nid oes rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ddangos dro ar ôl tro bod y diben yn parhau i fodloni'r agwedd budd ar y gofyniad budd cyhoeddus.

Er enghraifft, pan fydd budd i'r cyhoedd diben i warchod adeilad arbennig o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol wedi cael ei ddangos, nid oes rhaid i'r ymddiriedolwyr barhau i ddangos y teilyngdod hanesyddol neu bensaernïol bob blwyddyn.

Fodd bynnag, wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni diben eich elusen er budd y cyhoedd dylech:

- ddeall sut mae diben eich elusen yn fuddiol
- cyflawni'r diben er mwyn rhoi budd i'r cyhoedd yn y ffordd honno

Er enghraifft, wrth redeg elusen adeilad hanesyddol byddai'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y cyhoedd yn cael budd o warchod adeilad o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol ac adrodd ar hynny yn Adroddiad Blyneddol yr Ymddiriedolwyr.

Rhan 4: Rheoli'r risg o niwed

Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd

Mae cyflawni dibenion elusen er budd y cyhoedd yn cynnwys rheoli risgiau o niwed i fuddiolwyr yr elusen neu i'r cyhoedd yn gyffredinol a allai ddeillio o gyflawni'r diben.

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni diben eich elusen er budd y cyhoedd dylech:

- adnabod risgiau o niwed
- lleihau'r risg o niwed a
- sicrhau bod unrhyw newid a allai godi yn fân ganlyniad i gyflawni'r diben

Rhan 5: Penderfynu pwy sy'n cael budd

Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni diben eich elusen er budd y cyhoedd dylech:

- wybod pwy allai gael budd o ddiben eich elusen
- rhoi ystyriaeth briodol i'r ystod lawn o ffyrdd y gallech chi gyflawni diben eich elusen

Wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bwy all gael budd, gallech ddewis canolbwyntio ar rai buddiolwyr. Gallech chi wneud hynny ar yr amod bod:

- rhesymau priodol gennych dros wneud hynny
- nid ydych yn eithrio'r tlawd rhag cael budd
- bod y grŵp llai o bobl yr hoffech ganolbwyntio arno yn rhan ddigonol o'r cyhoedd at ddiben eich elusen
- eich bod yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r fframwaith ar gyfer **ymdiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus)

Mae gwneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael budd yn golygu mwy na dim ond adnabod pobl neu sefydliadau unigol fydd yn cael budd. Mae ffactorau eraill a allai gael yr effaith o gyfyngu ar bwy all gael budd. Mae ffactorau o'r fath yn cynnwys:

- buddion sydd ar gael drwy aelodaeth yn unig
- mynediad corfforol i gyfleusterau elusen, megis oriau agor
- codi tâl am wasanaethau elusen

Buddion ar gael drwy aelodaeth yn unig

(Gofyniad cyfreithiol): ni all elusen gael ei sefydlu i ddarparu budd i aelodau'r sefydliad yn unig oni bai:

- y gall rhan ddigonol o'r cyhoedd gael mynediad i'r buddion hynny drwy fod yn aelodau
- mae'r strwythur aelodaeth yn ffordd addas o gyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

I gael gwybod rhagor am hyn gweler Atodiad A: Buddion a geir drwy aelodaeth

Mynediad corfforol i gyfleusterau elusen

Os yw elusen yn darparu cyfleusterau i'r cyhoedd, gall ei hymdiriedolwyr gyfyngu ar faint o fynediad sydd gan y cyhoedd i'r cyfleusterau hynny, e.e. oriau agor cyfyngedig. Mae hyn ar yr amod bod:

- hyn yn helpu i gyflawni diben yr elusen mewn ffordd well
- faint o fynediad cyffredinol sy'n briodol yn ôl amgylchiadau'r elusen

I gael gwybod rhagor am hyn gweler Atodiad B: Mynediad corfforol i gyfleusterau elusen.

Codi tâl am wasanaethau

Gall elusennau godi tâl am y gwasanaethau neu'r cyfleusterau y maent yn eu cynnig.

(Gofyniad cyfreithiol): fodd bynnag, os yw elusen yn codi mwy nag y gall y tlawd ei fforddio mae'n rhaid i'w hymddiriedolwyr redeg yr elusen mewn ffordd sydd heb eithrio'r rhai sy'n dlawd.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler Atodiad C: Codi tâl am wasanaethau.

Rhan 6: Rheoli buddion personol

Cyflawni dibenion er budd y cyhoedd

(Gofyniad cyfreithiol): gall elusen ddarparu budd personol os yw'n 'ddamweiniol' i gyflawni ei diben.

Beth yw ystyr 'budd personol'

Mae 'budd personol' (weithiau'n cael ei alw'n 'fudd preifat') yn golygu budd y mae rhywun yn ei gael gan elusen. Gallai'r 'rhywun' hwnnw fod yn unigolyn neu'n sefydliad.

Beth yw ystyr 'damweiniol'

Mae budd personol yn 'ddamweiniol' os (gan ystyried ei natur a'i faint) yw'n ganlyniad neu'n sgil-gynnyrch angenrheidiol i gyflawni'r diben.

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i gyflawni diben eich elusen er budd y cyhoedd dylech sicrhau nad yw buddion personol yn fwy na buddion damweiniol:

Enghreifftiau o fudd personol

I weld enghreifftiau o'r math o fudd personol a allai godi o ddiben elusen neu redeg elusen, gweler:

- **Enghreifftiau o fudd personol** (Nid yw'n rhan o'n canllaw budd cyhoeddus)

Rhan 7: Peidio â chyflawni diben er budd y cyhoedd

Yr ymddiriedolwyr elusen fydd yn penderfynu sut i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

Os nad yw ymddiriedolwyr yn cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd, disgwyliwn i ymddiriedolwyr roi sylw i hyn a'i ddatrys.

Os ydym o'r farn nad yw ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â'u dyletswydd i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd, byddwn yn ystyried hyn yn unol â'n **Fframwaith Risg** (Nid yw'n rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus). Byddwn yn penderfynu faint o amser y gallwn ei roi i'r ymddiriedolwyr wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol ac a oes angen i ni gymryd unrhyw gamau rheoleiddio i unioni pethau.

Mewn achosion prin, lle nad oes modd mwyach, neu nid oedd modd erioed cyflawni diben er budd y cyhoedd, byddai hynny'n awgrymu nad oedd y diben ei hun er budd y cyhoedd.

Os oes modd, byddwn yn helpu ymddiriedolwyr elusen i ailddiffinio diben eu helusen. Mewn achosion eithriadol, lle nad oes modd i'r ymddiriedolwyr unioni'r anawsterau gyda diben y sefydliad, byddai hynny'n golygu nad yw'r diben yn elusennol ac felly nid yw'r sefydliad yn elusen.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler:

- **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)**

Herio penderfyniad y Comisiwn

Os ydym yn penderfynu gweithredu pan fydd ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n groes i'w dyletswyddau i gyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd, ac mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod ein penderfyniad yn anghywir, efallai y byddant yn gallu ei herio.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler:

- **Cwyno am benderfyniad rydym wedi'i wneud** (Nid yw'n ffurfio rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus)

Rhan 8: Gwybodaeth bellach

Mae'r rhan hon yn rhoi dolenni i ganllawiau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi mewn perthynas â'r canllaw hwn.

Mae'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:

- (Gofyniad cyfreithiol): **Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio dyletswydd ymddiriedolwyr i adrodd yn eu Hadroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar sut y maent wedi cyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd.

- (Gofyniad cyfreithiol): **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio'r gofyniad cyfreithiol sy'n datgan bod rhaid i ddibenion elusen fod er 'budd y cyhoedd'. Gelwir hyn y 'gofyniad budd cyhoeddus'.

Nid yw'r canlynol wedi'i gynnwys yn ein cyfres o ganllawiau budd cyhoeddus:

- **Budd cyhoeddus: trosolwg**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o ganllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau. Mae'n esbonio:

- sut y bydd deall budd cyhoeddus yn helpu ymddiriedolwyr elusen
- dyletswydd ymddiriedolwyr i 'roi sylw' i'n canllawiau budd cyhoeddus
- rhai pwyntiau allweddol i'w gwybod am y gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus

- **Hyrwyddo dibenion elusennol yn unig**

Mae'n esbonio dyletswydd ymddiriedolwyr elusen i hyrwyddo (neu gyflawni) dibenion elusennol eu helusen yn unig.

- **Dadansoddiad o'r gyfraith mewn perthynas â budd cyhoeddus**

Mae'r dadansoddiad hwn yn grynodedb o'n barn am y gyfraith sy'n ymwneud â budd cyhoeddus.

- **Beth sy'n gwneud elusen (CC4)**

Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth sydd ei angen yn ôl cyfraith Cymru a Lloegr er mwyn bod yn elusen.

- **Dechrau elusen**

Canllawiau cyffredinol ar sefydlu a chofrestru elusen newydd.

Atodiad A: Buddion a geir drwy aelodaeth

Pan fydd aelodaeth yn darparu budd cyhoeddus

(Gofyniad cyfreithiol): ni all elusen gael ei sefydlu i ddarparu budd i aelodau'r sefydliad yn unig oni bai:

- y gall rhan ddigonol o'r cyhoedd gael mynediad i'r buddion hynny drwy fod yn aelodau
- bod y strwythur aelodaeth yn ffordd addas o gyflawni dibenion yr elusen er budd y cyhoedd

Dylai pawb a allai gael budd allu gwneud cais i ymuno a dylai fod meini prawf gwrthrychol ar gyfer penderfynu ar yr aelodaeth.

Mae aelodaeth wedi'i chyfyngu'n aml i bobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol arbennig. Mae rhesymau ymarferol yn aml sy'n golygu bod rhaid cyfyngu ar nifer yr aelodau, e.e. os oes mynediad cyfyngedig i gyfleusterau adloniadol am resymau iechyd a diogelwch.

Mewn achosion o'r fath mae'n dderbyniol i gael rhestr aros ar gyfer aelodaeth ar yr amod bod yr aelodaeth nesaf sydd ar gael yn cael ei chynnig ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

Nid oes modd darparu rhestr gyflawn o'r amgylchiadau pan ellir defnyddio aelodaeth i gyfyngu budd i ran o'r cyhoedd. Yn y pen draw, mae'n dibynnu ar anghenion unigol elusen.

Pan na fydd aelodaeth yn darparu budd i'r cyhoedd

(Gofyniad cyfreithiol): i gyflawni dibenion elusen er budd y cyhoedd, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusennau sydd ag aelodaeth sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i ddarpariaethau aelodaeth yn cael yr effaith o droi'r elusen yn glwb aelodau preifat.

I gael gwybod rhagor am hyn gweler:

- **Budd cyhoeddus: y gofyniad budd cyhoeddus (PB1)** (Rhan 5)

Atodiad B: Mynediad corfforol i gyfleusterau elusen

Pan fydd elusen yn darparu cyfleusterau i'r cyhoedd, gall ei hymddiriedolwyr gyfyngu ar fynediad corfforol i'r cyfleusterau hynny am resymau:

- diogelwch yr eiddo
- diffyg adnoddau
- cyflwr, a'r angen i warchod, tir, adeiladau neu arteffactau
- gweinyddu'r elusen yn well

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â mynediad i gyfleusterau.

(Gofyniad cyfreithiol): er enghraifft, os yw'n briodol, rhaid i ymddiriedolwyr ystyried darpariaethau Deddf Cydraddoldeb ynghylch darparu mynediad corfforol i adeiladau i bobl anabl.

Cyfyngu ar oriau agor

Nid oes unrhyw ofyniad penodol ar gyfer oriau agor. Fodd bynnag, fel mater o arfer da, dylai ymddiriedolwyr sicrhau bod mynediad ar gael yn ddigon aml i ddarparu ar gyfer pob math o ymwelwyr gan ystyried natur y cyfleusterau a ddarperir gan yr elusen.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, bod ar agor ar y penwythnos yn ogystal ag oriau busnes arferol, Llun - Gwener. Os na all elusen agor bob dydd, er enghraifft am resymau cost, bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr benderfynu ar ba ddiwrnodau y bydd yn cau.

Yn amodol ar unrhyw amgylchiadau y tu allan i reolaeth yr ymddiriedolwyr sy'n cyfyngu ar sut y gall yr elusen weithredu, fel rheol dylent wneud trefniadau i'r elusen agor ar y diwrnodau pan fydd y bobl y mae'r cyfleuster yn cael ei ddarparu ar eu cyfer yn fwy tebygol o allu ymweld.

Atodiad C: Codi tâl am wasanaethau

Elusennau yn codi tâl am wasanaethau

Gall elusennau godi tâl am y gwasanaethau neu'r cyfleusterau y maent yn eu cynnig. Fel arfer byddai hynny oherwydd:

- bod gwasanaethau neu gyfleusterau'r elusen yn gostus i'w darparu
- oni bai bod yr elusen yn codi tâl, ni fydd yn gallu gweithredu o gwbl

Mae enghreifftiau o elusennau sy'n codi tâl yn aml am eu gwasanaethau yn cynnwys:

- sefydliadau addysgol (megis ysgolion a phrifysgolion)
- ysbytai
- cartrefi gofal
- elusennau adloniadol (megis canolfannau chwaraeon neu hamdden, caeau chwarae neu neuaddau pentref)
- elusennau artistig, cadwraeth a gwarchod (megis theatrau, amgueddfeydd a phlastai)
- elusennau sy'n codi tâl am aelodaeth
- elusennau sy'n codi tâl am gyhoeddiadau

Taliadau na all y tlawd eu fforddio

(Gofyniad cyfreithiol): un agwedd ar ddyletswydd ymddiriedolwyr i gyflawni dibenion eu helusen er budd y cyhoedd yw na allant redeg yr elusen mewn ffordd sy'n eithrio'r tlawd rhag cael budd. Gallai hynny ddigwydd os yw'r taliadau y mae'r elusen yn eu codi am ei gwasanaethau neu ei chyfleusterau ar lefel na all y tlawd ei fforddio.

Nid oes unrhyw ddiffiniad cyffredinol o'r 'tlawd' yn y cyd-destun hwn, ac nid oes unrhyw ddiffiniad cyffredinol o'r taliadau na all y tlawd eu fforddio.

Mae'r gyfraith elusennau yn cydnabod y 'tlawd' fel term perthynol sy'n dibynnu ar yr amgylchiadau mewn achosion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r 'tlawd' yn golygu dim ond y rhai mwyaf tlawd mewn cymdeithas a gall gynnwys pobl o incwm cymedrol.

(Gofyniad cyfreithiol): os yw elusen yn codi tâl am y gwasanaethau neu'r cyfleusterau y mae'n eu cynnig, rhaid i'r ymddiriedolwyr elusen ystyried a yw taliadau eu helusen yn fwy na'r hyn y gall y tlawd ei fforddio.

Gallai hyn ddibynnu, er enghraifft, ar:

- natur y gwasanaeth a pha mor aml neu pha mor rheolaidd y mae gwasanaeth o'r fath yn debygol o gael ei ddefnyddio neu ei angen, a'r
- ymrwymiad ariannol dilynol sy'n debygol o fod ei angen gan fuddiolwyr

Fodd bynnag, yn gyffredinol, fel arfer bydd yn golygu taliadau na fydd rhywun o allu cymedrol yn gallu eu fforddio'n hawdd.

Mae enghreifftiau o'r taliadau y gall y tlawd eu fforddio fel arfer yn cynnwys:

- ffioedd aelodaeth o ychydig o bunnoedd sy'n cael eu talu gan drigolion lleol i hurio neuadd bentref
- ffioedd mynediad bach i fynychu digwyddiadau mewn canolfan gymunedol neu i ymweld â thŷ neu safle hanesyddol
- cost flynyddol cerdyn llyfrgell
- prisiau tocynnau isel i weld cynhyrchiad gan gymdeithas ddrama amatur
- ffioedd yr awr isel i ddefnyddio terfynell rhyngrwyd gyhoeddus elusennol
- ffioedd tanysgrifiad neu aelodaeth bach i ymuno â chylch chwarae, sgowntiaid, geidiau, clwb ieuenctid neu glwb ar ôl ysgol, clwb chwaraeon neu ganolfan hamdden
- unedau symudol (megis llongau meddygol, faniau bwyd a dillad) sy'n teithio ar hyd ardaloedd difreintiedig mewn gwledydd sy'n datblygu gan ddarparu gwasanaethau, offer, nwyddau neu gyfleusterau am gost isel i bobl leol.

(Gofyniad cyfreithiol): os yw'r taliadau y mae'r elusen yn eu codi ar lefel na all y tlawd ei fforddio ym marn yr ymddiriedolwyr, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y tlawd yn gallu cael budd.

Gwneud darpariaeth i'r tlawd gael budd

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i lefel y ddarpariaeth y mae'r ymddiriedolwyr yn ei gwneud i'r tlawd fod yn fwy na'r ddarpariaeth leiaf neu ddisylwedd.

(Gofyniad cyfreithiol): yr ymddiriedolwyr elusen fydd yn penderfynu, drwy ystyried holl amgylchiadau eu helusen, pa ddarpariaeth (yn ogystal â'r hyn a fyddai'n fwy na darpariaeth leiaf neu ddisylwedd) i'w wneud er mwyn i'r tlawd gael budd.

(Gofyniad cyfreithiol): mae'n rhaid i ymddiriedolwyr wneud penderfyniadau sydd o fewn cwmpas y penderfyniadau y byddai'n briodol i ymddiriedolwyr eu gwneud yn yr amgylchiadau arbennig hynny.

Gallai hyn gael ei ddangos, er enghraifft, drwy wneud penderfyniadau yn unol â'r fframwaith ar gyfer **ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau**. (Nid yw'r canllaw hwn yn rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus.)

Nid oes unrhyw feincnodau gwrthrychol i'r ymddiriedolwyr eu dilyn o ran yr hyn sy'n fwy na darpariaeth leiaf neu ddisylwedd i'r tlawd. Mae'n fater i'r ymddiriedolwyr benderfynu, gan ystyried holl amgylchiadau eu helusen.

Gallai gynnwys lleihau'r costau i bobl nad ydynt yn gallu fforddio'r gost lawn, neu drwy ddarparu budd mewn ffyrdd eraill, megis drwy gefnogi darparu gwasanaethau tebyg gan sefydliad sy'n cael ei redeg gan y wladwriaeth.

Gall ymddiriedolwyr ystyried y ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael y tu allan i'r elusen sy'n helpu'r tlawd i fanteision ar fuddion yr elusen. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- cronfeydd ysgoloriaeth sy'n cael eu darparu gan elusennau eraill
- cyllid awdurdod lleol i'w dalu tuag at gost gofal preswyl
- benthyciadau'r llywodraeth i fyfyrwyr sy'n mynychu'r brifysgol

Wrth benderfynu sut i wneud darpariaeth i'r tlawd gael budd, gall fod o gymorth i ymddiriedolwyr edrych ar rhai **enghreifftiau**. (Dim ond enghreifftiau yw'r rhain ac nid ydynt yn rhan o'n canllawiau budd cyhoeddus.)

Mae'r Uwch Dribiwnlys yn amlinellu rhai ffactorau a allai fod yn berthnasol i achos ysgol elusennol sy'n codi ffioedd a phenderfynu a yw'n gwneud darpariaeth briodol i'r tlawd gael budd. Gall fod yn ddefnyddiol i ymddiriedolwyr pob elusen sy'n codi ffioedd. Mae'r ffactorau'n cynnwys:

- lefel y ffioedd a godir
- sefyllfa ariannol yr elusen a chynlluniau busnes (gan gynnwys lefel y cyflogau i staff proffesiynol a'r lefel cymhwysedd sy'n ofynnol)
- sut mae'r elusen yn gweithredu ar lawr gwlad
- a yw'r elusen yn darparu gwasanaeth 'moethus' a pha gyfleusterau y mae'n ei gynnig
- a oes unrhyw gronfeydd gwaddol gan yr elusen (cronfeydd y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r ymddiriedolwyr fuddsoddi neu eu cadw a'u defnyddio at ddibenion yr elusen. Gall gwaddol fod yn wariadwy neu'n barhaol)
- lleoliad daearyddol yr elusen a ffactorau lleol perthnasol eraill (e.e. a yw'n ardal o amddifadedd cymdeithasol)

Gall fod o gymorth i ymddiriedolwyr ysgolion annibynnol elusennol sy'n codi ffioedd i ystyried sut mae'r Uwch Dribiwnlys wedi ateb rhai **cwestiynau damcaniaethol** a ofynnwyd iddynt gan y Twrnai Gwladol am wneud darpariaeth i'r tlawd. (Nid yw'r cwestiynau a'r atebion hyn yn rhan o'n canllaw budd cyhoeddus). I ddeall y cwestiynau a'r atebion hyn mewn cyd-destun, efallai yr hoffai rhai ymddiriedolwyr weld **dyfarniad llawn yr Uwch Dribiwnlys**.

Atodiad Ch: Termau technegol a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio yn y canllaw hwn, a dylid deall bod ganddynt yr ystyrion penodol fel y nodir isod:

Deddf Elusennau: Deddf Elusennau 2011.

Ymddiriedolwyr elusen: y bobl sy'n gwasanaethu ar gorff llywodraethu elusen. Gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau bwrdd, llywodraethwyr neu'n aelodau pwyllgor. Mae ymddiriedolwyr elusen yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol.

Dogfen lywodraethol: dogfen gyfreithiol sy'n pennu dibenion elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, erthyglau cymdeithasu, ewylllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, cynllun y Comisiwn Elusennau neu'n ddogfen ffurfiol arall.

Amcanion: 'Amcanion' elusen yw datganiad o'i ddibenion. Fel arfer fe'u gwelir yng 'nghymal amcanion' dogfen lywodraethol yr elusen. Fodd bynnag, nid oes gan bob elusen ddogfen lywodraethol gyda chymal amcanion.

Fel arfer mae cymal amcanion elusen yn golygu'r un peth â'i dibenion, ond weithiau maen nhw ychydig yn wahanol, e.e.:

- pan nad yw'r cymal amcanion yn mynegi dibenion y sefydliad yn ddigonol neu'n gyflawn
- mae'r cymal yn cynnwys mwy na dim ond yr amcanion, megis pwerau

(Gofyniad cyfreithiol): **y gofyniad budd cyhoeddus:** y gofyniad cyfreithiol sy'n datgan, er mwyn bod yn elusen, rhaid i ddibenion sefydliad fod er budd y cyhoedd.

Diben(ion) a diben(ion) elusennol: defnyddiwn y term '**diben(ion)**' i olygu diben(ion) sefydliad unigol. Diben eich elusen yw'r hyn y cafodd ei sefydlu i'w gyflawni.

(Gofyniad cyfreithiol): i fod yn '**ddiben elusennol**' mae'n rhaid i ddiben gael ei gynnwys o fewn un o'r disgrifiadau o ddibenion yn y Ddeddf Elusennau a bod er budd y cyhoedd. Rhaid bod modd dangos hyn ym mhob achos.

Y llysoedd: defnyddiwn y term hwn i olygu, gyda'i gilydd, y Tribiwnlys, yr Uwch Dribiwnlys a'r llysoedd.

Y Tribiwnlys: y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen) yw lefel gyntaf apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn Elusennau a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.

Yr Uwch Dribiwnlys: Yr Uwch Dribiwnlys (y Siambr Dreth a Siawnsri) yw ail lefel apelio yn erbyn penderfyniadau'r Comisiwn a amlinellwyd yn Atodlen 6 o'r Ddeddf Elusennau.